Ysgol Cybi

Tynnu a Defnyddio Lluniau neu Fideos o'ch Plentyn yn yr Ysgol: Eich Hawliau

Cefndir

Mae'r daflen hon ar gyfer rhieni neu warcheidwaid disgyblion sydd yn yr ysgol.

Mae'n esbonio eich hawliau mewn perthynas â ffotograffau neu fideos o'ch plentyn yn cael eu tynnu a'u defnyddio gan yr ysgol.

Fel rhan o weithgareddau'r ysgol, bydd yr ysgol yn tynnu lluniau neu recordiadau o ddisgyblion i gofnodi eu dysgu a'u cynnydd. Gallai'r rhain fod yn unigol neu mewn grwpiau. Mae'r ffotograffau hyn yn aml yn ffurfio'r cofnod o weithgaredd dysgu ac fe'u defnyddir i gofnodi dysgu a chynnydd plentyn.

Yn ogystal â hyn, gall yr ysgol ddefnyddio'r rhain i gofnodi cyflawniad ac i ddathlu cyflawniadau o fewn yr ysgol. Mae dibenion eraill y gallai'r ysgol fod angen lluniau neu fideos ar eu cyfer, fel:

- arddangosfeydd ysgol
- rhaglen neu ap addysgol (e.e. SeeSaw, ClassDojo)
- deunydd cyhoeddusrwydd ysgol (e.e. newyddlen, prosbectws)
- gwefan ysgol
- tudalennau cyfryngau cymdeithasol ysgol (e.e. Facebook)
- cyfryngau lleol neu genedlaethol (e.e. papurau newydd, gwefannau allanol)

Os gellir adnabod unigolyn o ffotograff neu recordiad, caiff ei ystyried gan amlaf fel eu data personol.

Er mwyn cydymffurfio â *Deddf Diogelu Data 2018*, bydd angen 'sail gyfreithiol' ar yr ysgol i brosesu data personol eich plentyn, a bydd fel arfer angen eich **caniatâd** chi cyn i'r ysgol allu tynnu llun neu wneud unrhyw recordiadau o'ch plentyn i'w defnyddio yn y modd hwn.

Noder y bydd yr ysgol mewn rhai achosion yn defnyddio sail gyfreithiol arall ar gyfer tynnu lluniau neu wneud recordiadau fydd ddim angen caniatâd rhiant.

Caniatâd

Pan fydd eich plentyn yn dechrau yn yr ysgol, bydd yr ysgol gan amlaf yn gofyn am eich caniatâd cyn tynnu llun neu fideo o'ch plentyn. Mae gan rieni/gwarcheidwaid yr hawl i ofyn i'w plentyn eu hunain beidio â chael ei ffotograffu neu eu recordio.

Bydd yr ysgol yn gofyn i chi lofnodi ffurflen ganiatâd, lle rydych yn cytuno neu'n anghytuno i luniau a fideos o'ch plentyn gael eu tynnu a'u defnyddio ar gyfer dibenion gwahanol. Bydd angen cwblhau ffurflen ar gyfer pob plentyn unigol.

Mae'r ysgol yn gofyn i chi dicio eich bod yn rhoi eich caniatâd ar gyfer pob proses unigol. Mae'n bwysig eich bod yn ticio 'ydw' os ydych yn rhoi eich caniatad neu adael y bocs yn wag os nad ydych yn rhoi eich caniatâd.

Enghraifft:

- *Rwy'n rhoi caniatâd i'r ysgol ddefnyddio llun o fy mhlentyn mewn unrhyw bapur newydd, boed yn bapur bro, lleol neu genedlaethol:* Ydw ✓
- *Rwy'n rhoi caniatâd i'r ysgol ddefnyddio llun o fy mhlentyn ar wefan yr ysgol:* Ydw ☐

Os nad ydych yn rhoi tic yn nodi eich bod yn rhoi eich caniatâd neu os nad ydych yn dychwelyd y ffurflen i'r ysgol, yna bydd yr ysgol yn nodi **nad** ydych yn rhoi eich caniatâd. Mae'n bosibl felly na fydd eich plentyn yn cael eu cynnwys mewn lluniau/recordiadau ac ni fydd eu delweddau yn mynd ar gyfryngau cymdeithasol neu gyhoeddiadau eraill.

Fel mater o arfer dda, bydd yr ysgol yn gofyn yn rheolaidd ac yn rhagweithiol i chi adolygu eich caniatâd ar ddechrau pob blwyddyn ysgol newydd i sicrhau bod eich penderfyniad yn gyfredol.

Mae'r ysgol eisiau sicrhau ein bod yn dilyn eich cyfarwyddiadau o ran beth ydych yn dymuno i ni ei wneud â delweddau a recordiadau o'ch plentyn, felly rydym yn eich annog i sicrhau eich bod wedi cwblhau ac wedi dychwelyd y ffurflen fel ein bod yn gweithredu yn ôl eich dymuniadau.

Os yw rhieni'n anghytuno a bod un rhiant ddim yn rhoi caniatâd, yna fydd yr ysgol yn trin hyn fel pe na roddwyd caniatâd ar gyfer y disgybl penodol.

Tynnu Caniatâd yn ôl neu Newid eich Meddwl

Gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl neu newid eich meddwl **ar unrhyw adeg** a dylech gysylltu â'r Pennaeth yn syth i'w hysbysu o hyn er mwyn cwblhau ffurflen ganiatâd newydd fel bod gan yr ysgol gofnod swyddogol o'ch dymuniadau presennol.

Bydd lluniau a fideos o'ch plentyn yn cael eu tynnu'n ôl o'r llyfrgell ddelweddau ac yn cael eu dileu oddi ar systemau a chyfrifon yr ysgol.

Os yw'r delweddau neu'r fideos yn cael eu defnyddio ar-lein, bydd yr ysgol yn eu tynnu o'n cyfrifon cyn gynted â phosib, ond nid oes gan yr ysgol reolaeth dros ddeunyddiau yn y parth cyhoeddus.

Mae'n bosib felly y bydd delweddau ac unrhyw fideo dal yn weladwy ar-lein neu'n ymddangos yn y cyfryngau ar ôl i'r ysgol eu tynnu i ffwrdd os yw'r wybodaeth eisoes wedi ei rhannu. Dylai rhieni ystyried hyn wrth roi caniatâd.

Diogelu Data

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod delweddau o ddisgyblion yn cael eu storio'n ddiogel a bod delweddau electronig yn cael eu storio ar rwydwaith diogel.

Ni fydd enwau disgyblion yn cael eu cynnwys gyda ffotograffau o blant sy'n cael eu cyhoeddi ar wefan yr ysgol nac ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Gwelir Hysbysiad Preifatrwydd yr ysgol am fwy o wybodaeth ynglŷn â sut mae'r ysgol yn prosesu ac yn diogelu data personol.

Cysylltu

Os ydych yn dymuno cwblhau ffurflen ganiatâd neu adael i'r ysgol wybod eich bod chi wedi newid eich meddwl am y caniatâd yr ydych chi wedi'i roi yn barod, dyma fanylion cyswllt yr ysgol:

Enw'r Ysgol: Ysgol Cybi

E-bost: 6603036_gweinyddol.cybi@Hwbcymru.net; 6603036_pennaeth.cybi@Hwbcymru.net

Rhif Ffôn:01407 883150

Cyfeiriad: Ysgol Cybi, Ffordd Garreglwyd, Caergybi, Ynys Mon

Rydym hefyd wedi penodi Swyddog Diogelu Data Ysgolion drwy'r Awdurdod Lleol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r ddogfen hon, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion drwy ddefnyddio'r manylion isod:

E-bost: dpoysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru

Rhif ffôn: 01248 751833

Cyfeiriad: Gwasanaeth Dysgu, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW

Ysgol Cybi

Taking and Using Photographs or Videos of Your Child at School: Your Rights

Background

This leaflet is for school pupils' parents or guardians.

It explains your rights in relation to photographs or videos of your child being taken and used by the school.

As part of school activities, the school will take photographs or recordings of pupils to record their learning and progress. These could be individually or in groups. These photographs often form the record of a learning activity and are used to record a child's learning and progress.

Additionally, the school may use these to record achievements and to celebrate achievements within the school. There are other purposes for which the school might need photos or videos, such as:

- school displays
- educational programme or app (e.g. SeeSaw, ClassDojo)
- school publicity material (e.g. newsletter, prospectus)
- school website
- school social media pages (e.g. Facebook)
- local or national media (e.g. newspapers, external websites)

If an individual can be recognised from a photograph or recording it is usually considered their personal data.

To comply with the *Data Protection Act 2018,* the school will need a 'legal basis' to process your child's personal data, and will usually require your **consent** before the school can photograph or make any recordings of your child to use in this way.

Please note that the school in some circumstances will use another legal basis for taking pictures or recordings that does not require parental consent.

Consent

When your child begins school, the school will usually ask for your consent before taking a photograph or video of your child. Parents/guardians have the right to ask for their own child not to be photographed.

The school will ask you to sign a consent form, where you agree or disagree for photos and videos of your child to be taken and used for different purposes. A form will need to be completed for each individual child.

The school asks you to tick to confirm that you are providing your consent for each individual process. It is important that you tick 'yes' if you do provide consent or leave the box empty if you are not giving your consent.

Example:

- *I give consent for the school to use my child's photograph in any newspaper, whether community, locally or nationally:* Yes ✓
- *I give consent for the school to use my child's image on the school website:* Yes ☐

If you do not tick confirming that you provide your consent or if you do not return the form to the school, the school will then note that you do **not** provide your consent. Your child will therefore possibly not be included in pictures/recordings and their images will not be included on social media or other publications.

As a matter of good practice, the school will routinely and proactively ask you to review your consent at the beginning of each new school year to ensure that your decision is current.

The school wants to ensure that we adhere to your instructions regarding what you wish for us to do with images and recordings of your child, therefore we encourage you to ensure that you complete and return the form so that we can act according to your wishes.

If parents disagree and one parent does not provide consent, the school will treat this as if consent has not been provided for the particular pupil.

Withdrawing Consent or Changing your Mind

You can withdraw your consent or change your mind **at any point,** and you should contact the Headteacher immediately to inform them of this so that a new consent form can be completed so that the school has an official record of your present wishes.

Photos and videos of your child will be withdrawn from the image library and deleted from the school's systems and accounts. If the images or videos are in use online, the school will remove them from the school's accounts as soon as possible, but the school does not have control over materials in the public domain.

It is therefore possible that images or any video can still be viewed online after the school has removed them or they might appear in the media if the information has already been shared. Parents should consider this when providing consent.

Data Protection

The school will ensure that images of pupils are stored securely and electronic images are stored on a secure network.

Pupils' names are not included with photographs of children published on the school website and social media platforms.

Please see the school's Privacy Notice for more information on how the school processes and protects personal data.

Contact

If you wish to complete a consent form or notify the school that you have changed your mind about the consent you have already provided, these are the school's contact details:

Name of School: Ysgol Cybi

E-mail: 6603036_gweinyddol.cybi@Hwbcymru.net; 6603036_pennaeth.cybi@Hwbcymru.net

Telephone: 01407 883150

Address: Ysgol Cybi, Ffordd Garreglwyd, Caergybi, Ynys Mon

We have also appointed a Schools Data Protection Officer through the Local Authority. If you have any questions about this document, please contact the Schools Data Protection Officer using the details set out below:

E-mail: dpoysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru

Telephone: 01248 751833

Address: Learning Service, Isle of Anglesey County Council, Council Offices, Llangefni, Anglesey, LL77 7TW